# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 26.11.2024

Presennol: Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Meredydd Williams,Gareth Jones, Elfed Roberts, Lynda Massarelli

1. Ymddiheuriadau: Eurwyn Jones

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: HP, LM

2a. Datgan Diddordeb: Elfed Roberts am wneud ymholiadau i weld os oes angen datgan diddordeb gyda Plas Tan y Bwlch.

Heulwen Parry yn datgan diddordeb i pwynt 5.180 taliad Owain Aeron.

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.581 Cae Chwarae Gellilydan- Clerc wedi cysylltu gyda'r Prif Weithredwr, disgwyl ymateb.

3.582 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – yn dilyn cyfarfod gyda Amanda Murray ac Bryn Hughes, Elfed Roberts i ddiweddaru, dim ymateb hyd hyn, (cadw mlaen).

3.583 National Grid: Yn dilyn cyfarfod gyda Dwynwen, Adroddiad byr gan Meredydd Williams yn siarad am grantiau sydd ar gael, (cadw Mlaen).

3.584 Parcio Gellilydan: Ymateb wedi ei dderbyn gan Ceri Hughes, gweler isod.

*Diolch yn fawr am eich gohebiaeth e-bost yn ymwneud a cherbydau'n parcio ar y palmant yn Gellilydan. Ymddiheurwn yn ddiffuant am yr oedi a'r methiant i ymateb i'ch gohebiaeth wreiddiol; does gen i ddim cofnod ohono yn anffodus.*

*Rwyf yn llwyr ddallt eich pryderon am fodurwyr sydd yn parcio'n anystyriol gan amharu ar ddefnyddwyr eraill o'r briffordd. Yn anffodus, nid yw'r broblem yn unigryw i'r lleoliad hwn.*

*Yn anffodus iawn ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor bwerau i orfodi cerbydau sydd wedi parcio ar bafinau neu'n achosi rhwystr ar ffordd sydd heb ei lywodraethu o dan orchymyn a chyfyngiadau parcio mewn bodolaeth. Roedd Llywodraeth Cymru yn edrych mewn i roddi'r pwerau hyn i Awdurdodau Lleol eleni ond maent bellach wedi gohirio hyn tan 2025.*

*Mae gan Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor yr hawl i roi dirwy i gerbydau sydd yn parcio'n anghyfreithlon e.e. ar linellau melyn neu 'clearway'; sicrhaf bydd Swyddogion yn ymweld a'r lleoliad cyn gynted a bu modd gan adrodd unrhyw leoliadau problemus sydd heb gyfyngiadau parcio i wasanaeth traffig a phrosiectau'r Cyngor.*

*Gyda pherthnasedd i gerbydau sydd yn parcio'n beryglus ac anystyriol ble nad oes cyfyngiadau parcio fel llinellau melyn dwbl, mae gan yr Heddlu bwerau i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath sydd yn cynnwys symud cerbydau sydd yn achosi rhwystr afraid ar y briffordd. O ran y cynnig i ddarparu darpariaeth parcio ychwanegol, yn anffodus nid yw hyn yn wasanaeth statudol a gynigir gan y Cyngor. Mae rhai cymunedau wedi cymryd y cam i drefnu darpariaeth barcio'n annibynnol, ac rydym yn falch o gynnig cyngor technegol os yw hyn yn bosibl yn Gellilydan. Yn anffodus, nid oes gennym yr adnoddau ariannol i gyfrannu at brosiectau o'r fath.*

*Gobeithio fod yr uchod yn fuddiol i chi am y tro. Wrth gwrs, petaech yn awyddus trafod ymhellach, mae croeso i*



ER 14.1.25

CamScanner

*chi gysylltu gyda mi.*

3.585 Neuadd y Pentref - Cyfansoddiad y Neuadd – rhagor o wybodaeth i ddilyn, bydd angen trefnu cyfarfod ar wahân i drafod ymhellach.

3.586 – Safleoedd Bysiau Maentwrog – Elfed Roberts wedi bod mewn cysylltiad a Rhian Wyn Williams ac yn disgwyl diweddariad.

3.587 Hyfforddiant – Dyddiadau ar gyfer hyfforddiant wedi eu hanfon allan.

3.588 Is-bwyllgor – trafod cyfarfod mis Ionawr.

3.589 Gellilydan / Maentwrog – Gordyfiant o amgylch y pentref. Ymateb wedi ei dderbyn gan Adrian Williams.

*Diolch am eich e bost.*

*Cadarnhaf fod Tim Trefi Taclus/Ardal Ni wedi gweithredu i dorri tyfiant ar y A496 yn y pentref gyda'r gwaith yno wedi ei gwblhau. Mae'r Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu torri tyfiant ar hen ffordd Gellilydan, gyda'r gwaith hyn yn uchel ar ein blaenoriaeth pan fydd y tywydd yn caniatáu.*

*Gobeithiaf fod hyn o gymorth.*

3.590 Archwiliad Allianz – clerc wedi cysylltu a Wickstead, angen anfon llun o'r offer ymlaen.

3.591 Diffibilirwyr: Infois wedi ei dderbyn am y padiau, cytunwyd i dalu.

3.592 Plas Tan y Bwlch - Trafod llwybrau y Plas, cyfarfod nesaf.

Van wedi ei barcio wrth yr hên bost. Clerc i gysylltu i weld os yw yn gyfreithiol i fod yno.

3.593 Asesiad Risg – wedi ei gwblhau gan Lynda Massaelli.

- Clerc i gysylltu a Richard Jones i dorri'r drain sydd yn dod drwy'r ffens ar y terfyn yn unig.
- Gwaith ffensio – Clerc wedi cysylltu a'r Tim Tacluso. Nid yw hyn yn rhywbeth maent yn ei wneud. ER am wneud ymholiadau ychwanegol.

3.594 Traffig Maentworg i Cilfor – Clerc i ail-gysylltu yn mis Ionawr.

3.595 Biniau Halen – cadarnhad o leoliad y biniau a threfnu eu llenwi, clerc i gysylltu.

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.249 Gordyfiant yn y Pentref: tyfiant heb ei dorri wrth yr hen ysgol i lawr at y cae chwarae, Lluniau wedi eu derbyn gan HP, i'w hanfon ymlaen at sylw Adrian Williams.

4.250 Cefnfaes – Lluniau wedi ei derbyn. Pryderon hefo beth sydd yn mynd ymlaen yno. Oes posib i swyddogion ymweld a'r safle. Clerc i gysylltu.

4.251 Aelodau newydd wedi eu dewis. Eu gwahodd i gyfarfod mis Ionawr. Clerc i gael y ffurflenni bydd angen eu llenwi.

4.252 Cyfrifon wedi eu derbyn nôl. Adroddiad i'w anfon mlaen i'r cynghorwyr.

4.253 Gof Golofn – Clerc i gael pris am arwyddion newydd.

4.254 Creu manau parcio – cytunwyd i HP fynd o gwmpas y tai i gael barn y trigolion, hefyd i ddrafftio llythyr i'w roi allan.



14.1.25

CamScanner

5. Ariannol

5.178 Cyfrif Cadw: £225.08

5.179 Cyfrif Cyfredol: £3650.41

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.180 Owain Aeron £660.00

5.181 Cyflog Clerc £480.00l

5.182 Costau Clerc £140.00

5.183 HMRC: £119.80

5.184 Deffif Store: £108.00

6. Cynllunio

Dim gwrhwynebiad i'r canlynol:

6.765 NP5/73/287T – Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd – ymestyn man cadw rhan 2.

7. Gohebiaeth

252. Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith

253. Mel ab Owain / Huw Elfed Roberts - Seddi Gwag

254. Achub Plas Tan y Bwlch

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

8.28 Grantiau heb eu didoli hyd hyn, (cadw mlaen).

9. Mynwent Dwyryd

9.52 Cyfrif y Fynwent: £22224.44

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.53 Martin Kerr: £1040.00

9.54 Elfed Roberts am drefnu cyfarfod arall gyda Mr a Mrs Rix, (cadw mlaen).

9.55 Meredydd Williams wedi bod mewn cysylltiad a cwmni mapio digidol o Ddolgellau. Gwybodaeth i ddilyn, (cadw mlaen).

9.56 Tap y Fynwent angen ei newid. Gareth ac Eurwyn Jones am drefnu ei wneud, (cadw mlaen).

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Ionawr 14eg, Neuadd y Pentref am 6.30 o'r gloch.



14.1.25

CamScanner